



Student Academic Reps  
Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr  
Cardiff University Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

# Llawlyfr Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil 2020/21

Home of the Student Voice  
Cartref Llais Y Myfyrwyr



Cardiff University Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



# Cynnwys

3. Cyflwyniad gan eich IL Addysg, IL Ôl-raddedig ac IL Campws Parc y Mynydd Bychan
4. Cyflwyniad gan Claire Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Myfyrwyr am y cyfamser
5. Eich Undeb Myfyrwyr
6. Eich Tîm Llais y Myfyrwyr
6. Rôl Cynrychiolydd Academaidd
7. Rôl Cadeirydd ac Ysgrifennydd y PSM
8. Paneli staff myfyrwyr
9. Cyfarfodydd Ar-lein
12. Eich Colegau – AHSS
13. Eich Colegau – BLS
14. Eich Colegau – PSE
15. Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil
15. Y Ddolen Adborth
16. Yr Wythnos Siarad
17. Cyfleoedd Datblygu
17. Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth
19. Siarter y Myfyrwyr
20. Cyfeirio
21. Dyddiadau Allweddol
22. Egluro termau!
23. Cysylltwch â'ch Tîm Swyddogion Sabothol

Home of the Student Voice  
Cartref Llais Y Myfyrwyr



## Jane Chukwu, Eich Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig

“Diolch yn fawr am gynnig eich hunain fel Cynrychiolydd Academaidd eleni. Mae eich rôl fel Cynrychiolydd yn hanfodol ar gyfer siapio profiadau Myfyrwyr Caerdydd o fewn y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Fel unigolyn, rydych chi’n cynrychioli adborth, daliadau a chwestiynau eich carfan ac ym mhob ffordd yn gwneud gwahaniaeth, dylai eich arweinyddiaeth anelu at wasanaethu eich cyd-fyfyrwyr a gyrru newid academaidd cadarnhaol o fewn eich ysgol a thu hwnt. Fel Undeb, rydyn ni wastad yma i’ch cefnogi chi y mhob ffordd posibl, i arwain ac i ddysgu beth yw’r ffyrdd gorau y gallwch chi hyrwyddo Llais y Myfyriwr ar bob lefel. Llongyfarchiadau ar ddewis i helpu eraill gael y fersiwn gorau o’u Profiad Bywyd Myfyriwr yng Nghaerdydd! Rydw i’n edrych ymlaen at yr holl gyfarfodydd wyneb yn wyneb a rhithwir gyda chi drwy gydol y flwyddyn. .”



## Hannah Doe, Eich Is-lywydd Addysg

“Llongyfarchiadau ar fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr! Mae gennych chi rôl bwysig iawn yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr yma yng Nghaerdydd. Eleni mae eich angen chi mwy nag erioed i leisio lleisiau myfyrwyr. Rydw i’n edrych ymlaen at weithio gyda chi! Peidiwch ag anghofio mae Undeb y Myfyrwyr yma i’ch cefnogi chi yn eich rôl a gallwch anfon neges ataf unrhyw bryd.”

E-bost: [VPEducation@caerdydd.ac.uk](mailto:VPEducation@caerdydd.ac.uk)



## Sebastian Ripley, Eich Is-Lywydd Parc y Mynydd Bychan

“Llongyfarchiadau ar fod yn Gynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr! Mae’n gyfle ffantastig i ehangu profiad myfyrwyr eich ffrindiau ar eich cwrs yn ogystal ag ehangu eich sgiliau personol. Chi yw’r llais i gynnau newidiadau cadarnhaol sydd wir yn gwella amser eich cyd-fyfyrwyr yng Nghaerdydd. Llongyfarchiadau ar gymryd rhan ac rydw i’n edrych ymlaen at weithio gyda’n gilydd eleni!”





# Cyflwyniad gan Claire Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor Addysg a Myfyrwyr am y cyfamser



“Mae Prifysgol Caerdydd yn hynod falch o'r bartneriaeth gref sydd ganddo â chorff y myfyrwyr, ac yn ystod y flwyddyn sydd i ddod mae'n bwysicach nag erioed ein bod ni'n gwrandu'n astud ac yn ymateb i ddaliadau ein myfyrwyr.

Mae gennym draddodiad hir o gynrychiolaeth myfyrwyr yn y Brifysgol, fel un o'r ffyrdd rydym yn gweithio gydag ac ar gyfer ein myfyrwyr. Mae'r system Cynrychiolaeth Academiaidd yn golygu y gall myfyrwyr o bob rhaglen ym mhob ysgol gael llais yn sut y gellir gwella eu haddysg a'u profiad myfyrwyr ehangach. Bydd angen i'n Cynrychiolwyr Myfyrwyr weithio o fewn yr amgylchfyd dysgu cymysg 2020/21, er mwyn helpu gwneud yn siŵr bod gennym ni afael gref ar bethau sy'n gweithio'n dda a phethau sydd angen eu gwella. Mae bod yn Gynrychiolydd yn golygu bod gennych chi'r cyfle i weithio gyfochr a chynrychioli eich cyfoedion, yn ogystal ag ehangu eich sgiliau ac adeiladu rhwydweithiau. Croeso i'r tîm.”





# Undeb y Myfyrwyr



Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn cael ei adnabod fel Undeb Myfyrwyr blaenllaw ac yn rhan annatod o Brifysgol Caerdydd. Rydyn ni'n gobeithio bod wrth galon profiad myfyrwyr Caerdydd drwy weithio gyda phob myfyriwr i ehangu eu profiad yn y brifysgol.

## Ein pwrpas

- » Hyrwyddo buddiannau a lles myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn ystod eu hastudiaethau drwy gynrychioli, cefnogi a chynghori myfyrwyr
- » Bod yn sianel gynrychiolaeth gydnabyddedig rhwng myfyrwyr a Phrifysgol Caerdydd ac unrhyw gyrff allanol eraill
- » Darparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, athletaidd, hamddenol yn ogystal â fforymau i gael trafodaethau a dadleuon ar

gyfer datblygiad personol myfyrwyr.

## Mae gennym bedwar thema strategol:

1. Wrth galon bywyd myfyrwyr
2. Cartref llais y myfyrwyr
3. Cyfleusterau a gwasanaethau sy'n arwain y sector
4. Ymgysylltu gyda'n cymunedau llai cysylltiedig

## Rydyn ni hefyd yn hyrwyddo pedwar gwerth:

1. Arwain Myfyrwyr – chi yw arweinydd y myfyrwyr ac rydych yn cael eich cefnogi gan Undeb y Myfyrwyr, rydyn ni'n darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad.
2. Cynhwysiant – mae disgwyl i bob cynrychiolydd i ymwneud â phob myfyriwr y maent yn eu cynrychioli
3. Partneriaeth – mae'r Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr academiaidd oll yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau fod y profiad ym Mhrifysgol Caerdydd y gorau y gall fod i fyfyrwyr
4. Amrywiaeth – mae cynrychiolwyr academiaidd yn hynod amrywiol ac yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn difa rhwystrau tuag at addysg

Mae gan yr Undeb thema strategol cyfan wedi ei glustnodi ar gyfer Llais y Myfyriwr, rydyn ni'n gobeithio datblygu ein rôl yn cynrychioli buddiannau academiaidd ar lefel ysgol, coleg a'r brifysgol. Byddwn yn gweithio gyda'r Brifysgol i gefnogi a grymuso myfyrwyr i leisio eu barn.

Mae'r Undeb yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod daliadau myfyrwyr yn cael eu clywed ac yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ddadlau, rhannu syniadau a chyflawni newid.

Mae eich Undeb hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Brifysgol er mwyn sicrhau eich bod chi'n cael eich cynrychioli ar bob lefel. Mae'r tîm Llais Myfyrwyr yn rheoli strwythur Cynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr mewn partneriaeth â'r Brifysgol. Gallwch wneud gwahaniaeth ar sut rhedir eich Undeb drwy bleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol (CCB).

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cael ei arwain gan saith Swyddog Sabothol a etholir gennych chi, y myfyrwyr, felly cadwch lygad am yr etholiadau a chymerwch ran drwy naill llai ymgeisio am rôl Swyddog neu bleidleisio dros eich hoff ymgeiswyr.



# Eich Tîm Llais y Myfyrwyr

Llongyfarchiadau ar fod yn Gynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr! Mae Undeb y Myfyrwyr yn gartref i lais y myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd ac rydyn ni yma i'ch cefnogi chi a'ch buddiannau academiaidd. Ers 2014, mae Tîm Llais y Myfyrwyr yn Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd wedi rheoli strwythur Cynrychiolaeth Academiaidd Myfyrwyr. Mae ein tîm yn bodoli er mwyn recriwtio, cefnogi a gwobrwo cynrychiolwyr academiaidd ar draws y Brifysgol.

Fel adran, rydyn ni'n ymdrin ag ystod eang o feysydd gan gynnwys cynrychiolaeth academiaidd, democratiaeth, polisi ac ymgyrchoedd. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Prifysgol Caerdydd i hyrwyddo lais y myfyrwyr ar bob lefel a rhoi'r cyfle i fyfyrwyr i gyd-greu eu profiad Prifysgol.

Rydyn ni'n creu'r hyfforddiant a'i gyflwyno i chi fel cynrychiolydd academiaidd, ac rydyn ni'n ail ymweld ac yn diwygio'r hyfforddiant yn seiliedig ar eich adborth yn flynyddol. Drwy gydol y flwyddyn, byddwch yn derbyn cylchlythyr gennym unwaith y mis yn tanlinellu gwybodaeth allweddol a digwyddiadau sy'n bwysig i chi. Dwedwch wrthym ni beth rydych chi'n ei wneud fel y gallwn eich cynnwys chi yn ein cylchlythyr ymgyrch Llwyddiannau Myfyrwyr!

Rydyn ni eisiau clywed gennych chi ac am unrhyw beth y gallwn ni eich cynorthwyo â. Er mwyn cysylltu neu drefnu sgwrs gydag un ohonom ni e-bostiwch neu ffoniwch ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

- ✉ studentreps@cardiff.ac.uk
- ☎ 02920 781 434
- ☎ 029 20781 448
- ☎ 02920 781136 (Parc y Mynydd Bychan)
- 🐦 General: @cu\_studentvoice
- 🐦 Heath Park: @StudentVoice\_HP



Web: [cardiffstudents.com/your-voice](http://cardiffstudents.com/your-voice)

# Rôl Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr

## Amcan y rôl:

I gynrychioli daliadau ôl-raddedigion ymchwil a gweithredu fel lais ar eu cyfer ar faterion academiaidd a materion ymwneud â profiad y myfyrwyr, a rhannu syniadau arferion gorau.

## Cyfrifoldebau:

- » Mynychu Hyfforddiant Cynrychiolwyr
- » Mynychu Paneli Staff-Myfyrwyr (PSM)
- » Gwneud eich hun yn hysbys ac ar gael i'r myfyrwyr rydych yn eu cynrychioli.
- » Casglu adborth gadarnhaol ac adeiladol gan eich cyfoedion i rannu gydag eich ysgol a'ch coleg.
- » Cyfeirio myfyrwyr tuag at wybodaeth ar wasanaethau pwysig defnyddiol a ddarperir gan Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol
- » Rhoi adborth i fyfyrwyr ar yr effaith y mae llais myfyrwyr wedi'i gael a sut mae hyn wedi arwain at welliannau yn eich ysgol.
- » Darparu adborth i Undeb y Myfyrwyr drwy Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedigion Ymchwil
- » Gweithio gyda'ch Cydlynnydd Academiaidd Myfyrwyr ar ymgyrchoedd
- » Casglu adborth drwy'r Wythnos Siarad





# Rôl yr Ysgrifennydd

## Amcan y rôl:

Gweithio mewn partneriaeth gyda Chadeirydd y Panel Staff Myfyrwyr, cymryd cofnodion, aseinio gweithredoedd mewn cyfarfodydd, a bod yn brif gyswllt yn eich ysgol ar gyfer y Tîm Llais Myfyrwyr ac eich Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr.

## Cyfrifoldebau:

- » Mynychu Hyfforddiant Ysgrifennyddion
- » Cymryd cofnodion yn y PSM
- » Penodi Gweithredoedd yn y PSM
- » Cadw at amser yn y PSM
- » Gweithio'n agos gyda'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM)
- » Gweithio mewn partneriaeth gyda Chadeirydd eich PSM
- » Hyrwyddo ymddygiad broffesiynol yn y Panel Staff Myfyrwyr
- » Gosod dyddiad eich PSM, yr agenda, a gwirio'r munudau gyda'r Cadeirydd a chefnogaeth gan CCM
- » Gwahodd aelodau staff perthnasol i PSM neu weithio gyda'ch CCM i wahodd eraill.
- » Mynychu Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil
- » Sicrhau bod eitem agenda rheolaidd yn rhoi'r cyfle i roi adborth o Fforymau'r Coleg.

# Rôl y Cadeirydd

## Amcan y rôl:

Cadeirio cyfarfodydd Paneli Staff Myfyrwyr a bod yn brif bwynt cyswllt yn eich ysgol, ar gyfer eich Tîm Llais Myfyrwyr, ac eich Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr yn ymwneud â syniadau neu faterion sy'n codi ymysg eich carfan.

## Cyfrifoldebau:

- » Mynychu Hyfforddiant Cadeirydd
- » Cadeirio Paneli Staff Myfyrwyr
- » Gweithio'n agos gyda'ch Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr (CCM)
- » Gweithio mewn partneriaeth â Ysgrifennydd eich PSM
- » Hyrwyddo ymddygiad broffesiynol yn y Panel Staff Myfyrwyr
- » Penodi gweithredoedd yn y Panel Staff Myfyrwyr
- » Gosod dyddiad eich PSM, yr agenda, a gwirio'r munudau gyda'r Ysgrifennydd a chefnogaeth gan CCM.
- » Gwahodd aelodau staff perthnasol i PSM neu weithio gyda'ch CCM i wahodd eraill.
- » Mynychu Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil
- » Adrodd yn ôl i PSM a'r garfan ehangach wedi bob Fforwm.



# Paneli Staff Myfyrwyr

Mae Paneli Staff Myfyrwyr (PSM) yn gyfarfodydd lle mae Cynrychiolwyr Academaidd Myfyrwyr a staff o fewn eich Ysgol yn bresennol. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw i siarad ynglŷn â syniadau a meysydd i wella ar eich cwrs a phrofiad addysgiadol yn gyffredinol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn gydag adborth gan eich carfan. Bydd dau gynrychiolydd (Cadeirydd ac Ysgrifennydd) yn gyfrifol am gadeirio'r cyfarfod a chymryd cofnodion.

## Beth gallaf i ei ddisgwyl o Banel Staff Myfyrwyr?

Bydd agenda a chofnodion o'r cyfarfod blaenorol yn cael eu cylchedu cyn y PSM. Gwnewch yn siŵr eich bod wedi paratoi at yr eitemau ar yr agenda a chyfrannu unrhyw adborth perthnasol sydd gennych ar gyfer bob eitem ar yr agenda. Mewn cyfarfodydd dilynol mae'n bwysig eich bod yn gwirio'r pwyntiau gweithredu, efallai bydd y Cadeirydd neu'r Ysgrifennydd yn gofyn i chi wneud rhywbeth ar gyfer y PSM nesaf.

## Pwy fydd yno?

Aelodaeth myfyrwyr:

- » Cadeirydd ac Ysgrifennydd Etholedig
- » Cynrychiolwyr Academaidd
- » Aelod pwyllgor o gymdeithas academaidd perthnasol (lle bo'n berthnasol)

Aelodaeth staff:

- » Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr
- » Cyfarwyddwr Ymchwil Ôl-raddedig neu gyfwerth
- » Llyfrgellydd Pwnc
- » Rheolwr Addysg a Myfyrwyr neu gyfwerth
- » Unrhyw staff a enwebir o'r ysgol sy'n berthnasol i fod yn bresennol

Mae'n werth nodi os oes mater penodol yr hoffech gyfeirio ato yn y cyfarfod, mae'n bwysig rhoi gwybod i Gadeirydd y Cydlynnydd Cynrychiolwyr Myfyrwyr o flaenllaw fel y gallant wahodd yr aelodau staff perthnasol. Gall aelod o staff o TG a Llyfrgellydd Pwnc fod yn bresennol.

## Pa mor aml y cynhelir y PSM?

Bydd eich PSM yn cwrdd o leiaf tair gwaith y flwyddyn. Fel gofyniad eich rôl, dylech fynychu bob cyfarfod neu anfon ymddiheuriadau ac adborth drwy Gadeirydd y PSM os nad ydych chi'n gallu bod yn bresennol. Mae gan rhai ysgolion fwy na thri PSM mewn blwyddyn, mae mynd yn fynych drwy'r flwyddyn gyfan yn allweddol er mwyn sicrhau bod gweithredoedd yn cael eu gweithredu.

## Oes gennych chi syniad neu broblem cyn eich PSM?

Ni all rhai materion aros hyd nes Panel Staff Myfyrwyr. Os oes mater brys mae'n werth ei godi gydag aelod o staff cyn y cyfarfod. Os oes angen cymorth arnoch i wneud hynny, cysylltwch â [StudentReps@Caerdydd.ac.uk](mailto:StudentReps@Caerdydd.ac.uk).





# Cyfarfodydd Ar-lein

## Cynghorion ar sut i gynnal cyfarfodydd ar-lein

- » Gallwch drefnu cyfarfodydd drwy zoom a dynodi amser ar y Calendr Outlook. I drefnu cyfarfodydd ar Teams, ychwanegwch bawb yr hoffech fod yn bresennol ar un sgwrs a ffonio ar yr amser y cytunwyd.
- » Mewngofnodwch ychydig yn fuan fel bod myfyrwyr yn gwybod eu bod yn y lle cywir.
- » Gwnewch yn siwr bod eich wyneb wedi ei oleuo yn dda o'r blaen, nid o'r cefn.
- » Trowch y camera ymlaen ac annog pawb arall i droi eu camerâu ymlaen.
- » Mewn cyfarfodydd mwy gofynnwch i gyfranwyr ddiffodd eu microffonau. Bydd hyn nid yn unig yn cael gwared o swm cefndirol, byddwch hefyd yn gwybod bod rhywun eisiau siarad os ydynt yn troi eu microffon ymlaen.
- » Gwiriwch y tu ôl i chi – os yna unrhyw beth (neu rywun!) na hoffech chi i bobl eu gweld?
- » Peidiwch a defnyddio cefndir rhithwir oni bai bod eich bod yn eistedd o flaen wal blaen.
- » Ceisiwch gael rhywun i'ch helpu drwy ddarllen ac ateb y sgwrs a rhoi gwybod i chi os oes unrhyw beth sydd angen eich sylw
- » Gall yr yr ysgrifennydd hefyd wneud cofnod o bwy oedd yn bresennol yn y cyfarfod, efallai na fydd hyn yn amlwg ar y recordiad

# Dulliau adborth ddigidol

## Cyfryngau Cymdeithasol

### Cadarnhaol

- \* Y cyfrwng cymdeithasol gorau i'w ddefnyddio yw Facebook; dyma'r un sy'n cael ei ddefnyddio fwyaf ac mae hefyd yn cynnig y gallu i greu grwpiau preifat, polau a negeseuo preifat.

### Negyddol

- \* Ni fydd pob myfyriwr yn ei ddefnyddio. Er enghraifft mae Facebook wedi ei wahardd yn Tsieina felly efallai na fydd gan fyfyrwyr Tsieineaidd gyfrifon.
- \* Efallai bod yn well gan rhai myfyrwyr gadw eu bywyd prifysgol a bywyd personol ar wahân ac efallai eisiau defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod eu hamser hamdden heb gael eu hatgoffa am arholiadau ac asesiadau
- \* Gall cyfryngau cymdeithasol achosi straen a bod yn ymyrraeth ar astudiaeth, felly gall myfyrwyr gymryd seibiant oddi wrtho heb orfod poeni colli unrhyw negeseuon yn ymwneud â'r cwrs

## E-bost prifysgol / Outlook

### Cadarnhaol

- \* Mewn egwyddor – bydd gan bawb fynediad at hyn ac yn ei gyrchu yn gyson
- \* Mae Microsoft Forms yn blatfform da i ddefnyddio er mwyn creu arolygon
- \* Mae'n ymwneud â'r brifysgol felly gall bobl wahanu eu bywyd prifysgol a phersonol

### Negyddol

- \* Efallai na fydd myfyrwyr yn gwirio eu negeseuon e-bost dros y gwyliau, yn enwedig yn yr haf
- \* Efallai y bydd pobl yn poeni bod eu e-byst yn cael eu monitro gan y Brifysgol. Gall defnydd anaddas ohono olygu gweithdrefnau disgyblu yn erbyn myfyrwyr
- \* Gall cadwyni e-bost hir fod yn anhrefnus – gallant fynd oddi ar y trywydd a diflasu pobl



# Dulliau Adborth Digidol

## WhatsApp

### Cadarnhaol

- \* Cyn belled â bod gan fyfyrwyr ffôn clyfar gallant lawrlwytho a defnyddio WhatsApp am ddim (ag eithrio costau data)
- \* Mae'n syniad da ei ddefnyddio os ydych chi angen cael syniadau sydyn gan eich carfan

### Negyddol

- \* Mae'n anoddach i ychwanegu pobl yn hytrach na chwilio am enwau; bydd angen casglu rhif ffôn pawb ac eu hychwanegu i'r sgwrs, a all gymryd amser.
- \* Efallai na fydd myfyrwyr eisiau i bawb yn y garfan wybod eu rhif ffôn
- \* Dim opsiwn i greu pôl
- \* Mae yno demtasiwn i bobl bostio ar y grŵp y tu allan i oriau'r brifysgol, gan olygu efallai y bydd cynrychiolwyr yn teimlo'r angen i ymateb ar y penwythnos. Gall sgysiau gael eu tawelu ond mae'n rhaid gosod y gosodiadau hynny bob tro yr hoffech chi dawelu'r sgwrs neu gofio dadwneud hynny

## Zoom / Teams Cyfarfodydd

### Cadarnhaol

- \* Gallwch naill ai drefnu cyfarfod cwrs cyn PSM, neu glustnodi awr i'r ochr bob wythnos lle gall un o gynrychiolwyr y cwrs fod ar gael ar Zoom neu Teams i wrando ar adborth gan eu carfan.
- \* Yn rhoi'r profiad o gadeirio cyfarfodydd i bob cynrychiolydd yn hytrach na Chadeiryddion PSM yn unig
- \* Gall hyn arwain at fwy o drafodaethau rhyngweithiol ac, os oes llawer o gyfranogwyr yn bresennol, gallwch gael consensws ar beth mae'r garfan yn ei feddwl

### Negyddol

- \* Mae hyn yn ddibynnol ar argaeledd myfyrwyr - er hyn gellir amserlennu o amgylch amserlen y cwrs

## Mentimeter

### Cadarnhaol

- \* Ffordd dda o gael adborth ar fater penodol
- \* Rhyngweithiol ac yn ymateb ar-unwaith
- \* Mae llawer o bobl yn cael dweud eu dweud ar yr un pryd


### Negyddol

- \* Gall hyn ond gael ei ddefnyddio ar y cyd gyda chyfarfod ar-lein ac ni fydd yn gweithio fel offeryn casglu adborth ar ben ei hun






# Isod ceir dyfyniadau gan gyd a chyn gynrychiolwyr ynglŷn â'u profiadau yn ystod PSM yn eu hysgolion:



## Rhiannon Lunney

*ÔRY yn Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth, Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg*

“Mae cynrychiolwyr ÔRY ac ÔRA yn mynd i'r PSM Ôl-raddedig i drafod materion sy'n berthnasol i fyfyrwyr ôl-raddedig yn unig. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob rhaglen ÔRA a chynrychiolydd o bob un o'r themâu ymchwil ehangach i sicrhau bod holl fyfyrwyr yn cael eu cynrychioli. Mae'r Cyfarwyddwyr ÔRY ac ORA, cydlynwyr y MSc, Gwasanaethau Llyfrgell a nifer o staff Gwasanaethau Proffesiynol yn bresennol yn y PSM Ôl-raddedig. Maent yn gwneud rolau megis Swyddog Cefnogaeth Academaidd, Cyswllt Anableddau ac Gweinyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. Fel arfer mae 5 PSM dros y flwyddyn, yn cynnwys dros yr Haf. Mae unrhyw agwedd o fywyd yn PHYSX yn agored i drafodaeth, o ofod swyddfa i anghenion hyfforddi, oriau dysgu i fynediad at adnoddau. Does dim disgwyl i chi fynd i bob cyfarfod, ond maen hynod o ddefnyddiol i gael adborth wedi ei basio ymlaen, hyd yn oed os nad ydych chi'n gallu bod yn bresennol.”



## Rachel Beaney

*ÔRY yn Ysgol Ieithoedd Modern, Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol*

“Mae'r Grŵp Adolygu Ôl-raddedig Ymchwil yn darparu sianel ffurfiol ar gyfer Cynrychiolwyr Ôl-raddedigion Ymchwil a Myfyrwyr Ôl-raddedig Ymchwil i gwrdd â Chyfarwyddwyr Ôl-raddedigion Ymchwil a Gweinyddwr Ôl-raddedig Ymchwil i drafod materion sy'n ymwneud â'u profiad addysgiadol. Maent hefyd yn gyfle i'r Ysgol ymgynghori â myfyrwyr a chael adborth ar gynigion newydd. Fel cynrychiolwyr, rydyn ni'n trefnu 2 gyfarfod bob blwyddyn yn MLANG. Rydyn ni'n anfon gwahoddiadau calendr fel bod pawb yn ymwybodol o'r cyfarfodydd. Rydyn ni'n gofyn am adborth o flaenllaw ac hefyd yn darparu pwynt trafod cyffredinol ar adborth yn y cyfarfodydd. Rydyn ni'n cynnig cyfle i ddysgwyr o bell i gysylltu â ni drwy Skype. Mae un cynrychiolydd yn cadeirio tra mae'r llall yn gwneud y cofnodion. Rydyn ni'n gwahodd y gweinyddwr a'r Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-raddedig Ymchwil i ymuno hanner ffordd drwy'r cyfarfod ar gyfer yr ail awr. Mae hyn fel y gallwn drafod sut i gyflwyno pwyntiau iddynt. Mae'r cyfarfodydd fel arfer yn drafodaethau llewyrchus ac yn gyfle i bawb gael dod at ei gilydd. Rydyn ni'n cylchedu'r cofnodion ychydig o wythnosau yn ddiweddarach. Mae Cynrychiolwyr a Chyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-raddedig Ymchwil yn defnyddio rhain i gyflawni gweithredoedd.”



# Eich Coleg – Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol (AHSS)

Mae Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol yn cynnwys 10 ysgol:

- » Ysgol Busnes Caerdydd (CARBS)
- » Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth (ENCAP)
- » Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio (GEOPL)
- » Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd (SHARE)
- » Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant (JOMEC)
- » Ysgol Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth (LAWPL)
- » Ysgol Ieithoedd Modern (MLANG)
- » Ysgol Cerddoriaeth (MUSIC)
- » Ysgol Y Gwyddorau Cymdeithasol (SOCSCI)
- » Ysgol Y Gymraeg (CYMRAEG)

Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol yw'r coleg fwyaf ym Mhrifysgol Caerdydd gyda dros 13,000 o fyfyrwyr, gyda'r Ysgol Fusnes yn gartref i dros 4800 o fyfyrwyr ar ben ei hun. Mae'r Ysgolion yr AHSS wedi eu lleoli yn bennaf yng Nghathays, gydag adeilad newydd JOMEC wedi ei leoli yng Nghanol y Ddinas.

Mae Coleg yr AHSS yn falch o'i gyrhaeddiad bydeang. Mae gan yr ysgol gysylltiadau ffurfiol gyda 38 o wledydd ac ar hyn o bryd yn gartref i 3,500 o fyfyrwyr rhyngwladol o dros 100 o wledydd. Yn eu cyfanrwydd mae myfyrwyr o dros 170 o wledydd wedi treulio eu hamser yn astudio yng Ngholeg yr AHSS.

Yn 2019/2020, roedd dros 500 o gynrychiolwyr yng Ngholeg yr AHSS. Eleni fe fydd pedwar Fforwm Coleg AHSS ar gyfer bob lefel o astudio; Is-raddedig, Ôl-radd a addysgir ac Ôl-radd Ymchwil.

**Deon Ôl-raddedig ar gyfer Coleg y AHSS yw Dr Robert Gossedge a fydd yn mynd yn fynych i gyfarfodydd y Fforwm.**





# Eich Coleg – Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd (BLS)

Mae Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn cynnwys 7 ysgol academiaidd:

- » Ysgol y Biowyddorau (BIOSI)
- » Ysgol Deintyddiaeth (DENTL)
- » Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd (HCARE)
- » Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg (OPTOM)
- » Ysgol Meddygaeth (MEDIC)
- » Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol (PHRMY)
- » Ysgol Seicoleg (PSYCH)

Mae Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn goleg sy'n ymestyn dros 2 gampws! Gydag ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd, Deintyddiaeth a Meddygaeth wedi eu sefydlu ar gampws y Mynydd Bychan a llais y myfyriwr yn cael ei gynnal trwy Caerdydd! Boed yn Geneteg, Seicoleg, Therapi Galwedigaethol, Optometreg, mae yno Gynrychiolydd Myfyrwyr y mhob ysgol ac ar bob lefel yn gweithio'n galed i gasglu adborth ar ddysgu clinigol, amserlenni, lleoliadau a mwy.

Er y bydd hyfforddiant yn cael ei wneud ar-lein eleni, ym mlwyddyn academiaidd 19–20 fe gynhaliom ni dros 30 sesiwn hyfforddi ar gampws y Mynydd Bychan gyda Therapyddion Galwedigaethol, Nyrsys Iechyd Cyhoeddus, Meddygon a Deintyddion a mwy!

Yn ystod 2019/2020 roedd dros 250 o gynrychiolwyr yn y coleg, o bob ysgol ar bob lefel o astudio (Is-raddedig, Ôl-radd a Addysgir a Ôl-radd Ymchwil). Mae fforymau coleg ar gyfer BLS wedi eu rhannu i Is-raddedig, Ôl-radd a Addysgir ac Ôl-radd Ymchwil.

Deon Ôl-raddedig ar gyfer Coleg y BLS yw Dr Emma Kid a fydd yn mynd yn fynych i gyfarfodydd y Fforwm.





# Eich Coleg – Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg (PSE)

Mae Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg yn cynnwys 7 ysgol academiaidd:

- » Ysgol Pensaernïaeth (ARCHI)
- » Ysgol Cemeg (CHEMY)
- » Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg (COMSC)
- » Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr (EARTH)
- » Ysgol Peirianeg (ENGIN)
- » Ysgol Mathemateg (MATHS)
- » Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth (PHYSX)

Mae'r Ysgol Archeoleg, Cemeg, Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr a Mathemateg wedi eu sefydlu yn ganolog ar gampws Cathays. Mae'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg, Peirianeg a Ffiseg wedi eu sefydlu yn adeiladau'r Frenhines sydd wedi eu lleoli ymhellach allan ar gampws Cathays tuag at canol y ddinas, gyda'r Academi Meddalwedd Genedlaethol wedi ei leoli yng Nghasnewydd.

Er mai PSE yw'r coleg lleiaf yn y brifysgol, gyda chyfartaledd o 6500 o fyfyrwyr, mae'r coleg yn cael ei adnabod yn rhyngwladol am ei ragoriaeth ymchwil a dysgu, arloesedd ac ymgysylltiad diwydiannol, datrysiadau cynaliadwy ac effaith cymdeithasol.

Yn 2019/2020 roedd ychydig dros 200 cynrychiolydd yn y coleg, roedd oddeutu 30 ohonynt yn gynrychiolwyr ôl-raddedig ymchwil.

**Deon Ôl-raddedig ar gyfer Coleg y PSE yw Dr Julie Gwilliam a fydd yn mynd yn fynych i gyfarfodydd y Fforwm.**






# Fforwm Cynrychiolwyr Ôl-raddedigion Ymchwil

Mae'r Fforwm CÔRY yn agored i holl Gynrychiolwyr Academaidd Ôl-raddedigion Ymchwil ar draws Prifysgol Caerdydd, yn cael eu hwyluso gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'u cadeirio gan Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig a'r Deon perthnasol o bob Coleg. Pwrpas y cyfarfodydd hyn yw i drafod unrhyw broblemau ar lefel Ysgol, Coleg neu Brifysgol sy'n effeithio cymuned yr ôl-raddedigion ymchwil, ac fe gewch gyfle i ofyn eich cwestiynau i Ddeoniaid y Colegau. Yn ystod blynyddoedd diweddar roedd hwn yn un fforwm mawr ar gyfer bob cynrychiolydd ÔRY yn y Brifysgol i fynychu, fodd bynnag eleni, gyda chyfarfodydd yn bennaf ar-lein, bydd y fforwm ôl-raddedig nawr yn cael ei rannu i gyfarfodydd ar gyfer colegau penodol.

Trafodaethau yn y gorffennol wedi amrywio o Undeb y Myfyrwyr yn cefnogi Ôl-raddedigion Ymchwil, tâl addysgu ac arddangos i Ôl-raddedigion Ymchwil sy'n addysgu, monitro datblygiad a SIMS, a gofod swyddfa Ôl-raddedigion Ymchwil. Mae'n gyfle i gael cyfrannu at ddatblygiadau Ôl-raddedig yn y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr.

Fe fyddwch yn cael eich gwahodd drwy Outlook i'r cyfarfodydd, felly cadwch lygaid ar eich mewnflwch! Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r Fforwm Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil anfonwch e-bost at [studentreps@caerdydd.ac.uk](mailto:studentreps@caerdydd.ac.uk).

## Y Ddolen Adborth a Strwythur





# Yr Wythnos Siarad

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gweithio mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol i wneud newidiadau Mae'r Wythnos Siarad yn cael ei gynnal yn ystod wythnos gyntaf mis Chwefror bob blwyddyn, a phwrpas yr ymgyrch yw casglu adborth ar gardiau Wythnos Siarad, gan fyfyrwyr. Mae eich adborth yn ystod yr ymgyrch hwn yn ffurfio asgwrn cefn yr Argymhelliad Ysgrifenedig Myfyrwyr, adroddiad a gyflwynir i'r Brifysgol i wneud argymhellion i'r Brifysgol ar ffyrdd o wella profiad y myfyrwyr.

Mae rhai o'r llwyddiannau anhygoel o ganlyniad i ymgyrch yr Wythnos Siarad yn cynnwys:

- » Adnewyddiadau i Rwydwaith Eduroam ar draws y Brifysgol
- » Agorwyd llyfrgell yr ASSL dros gyfnod gwyliau y Nadolig
- » Mwy na 8 digwyddiad dros gyfnod Y Glas ac 11 taith Ôl-raddedig drwy gydol y flwyddyn!

## Wythnos Siarad



Yn 2020, fe gafwyd blwyddyn arall o dorri record a casglwyd 3,858 o gardiau a olygodd 7,897 o sylwadau testun rhydd. Roedd yr ymgyrch yn hynod o lwyddiannus diolch i gymorth ein cynrychiolwyr academiaidd, staff ysgolion, a gwirfoddolwyr eraill!

Mae'r Wythnos Siarad yn gyfle gwych i chi ymgysylltu â myfyrwyr eraill a darganfod pa newidiadau hoffent weld! Gallwch weld adroddiad yr Wythnos Siarad y blynnyddoedd diwethaf ar ein gwefan.

## Oeddech chi'n gwybod?

Gall Llais y Myfyrwyr eich darparu chi gyda'r holl sylwadau rhydd o'r Wythnos Siarad ar gyfer eich ysgol fel y gallwch weithredu rhain fel rhan o'ch Panel Staff Myfyrwyr! E-bostiwch [StudentReps@Caerdydd.ac.uk](mailto:StudentReps@Caerdydd.ac.uk) am fwy o wybodaeth.



# Cyfleoedd datblygu

Mae bod yn gynrychiolydd myfyrwyr yn rhoi sawl cyfle i chi ddatblygu fel cynrychiolydd, a'ch datblygiad personol. Fe fyddwn yn hysbysebu cyfleoedd datblygu drwy gydol y flwyddyn drwy ein cylchlythyr misol i gynrychiolwyr. Dyma rai o'r cyfleoedd datblygiadol sydd ar gael i chi:

- » **System Haenau Gwobrwyo a Chydnabod Cynrychiolwyr** – byddwch y cynrychiolydd gorau y gallwch chi drwy weithio tuag at wobrwiau efydd, arian ac aur.
- » **Gwasanaeth Datblygu Sgiliau** – fel arweinydd myfyrwyr, gallwch weithio tuag at Ddiploma Arweinyddiaeth gyda'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau. Defnyddiwch eich amser gwirfoddol fel Cynrychiolydd, a chymryd rhan mewn modiwlau arwain ac gallwch gael Diploma Arwain cydnabyddedig!
- » **Bod yn Hyrwyddwr Lles** – Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn bencampwr lles ar gyfer y gymuned ôl-raddedig, cysylltwch â [wellbeingchampion@caerdydd.ac.uk](mailto:wellbeingchampion@caerdydd.ac.uk) lle byddant yn cynnig mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â chofrestru, hyfforddiant a phethau y gallwch chi gymryd rhan ynddynt yn y rôl.
- » **Pwyllgorau Gwaith Swyddogion Sabothol** – byddwch yn ran o bwyllgorau gwaith Is-lywydd Addysg, Parc y Mynydd Bychan neu Ôl-raddedig a gweithio gyda nhw i ymgyrchu dros faterion a syniadau perthnasol.
- » **Cynhadledd Cynrychiolwyr yr**

- Hydref** – rhwydweithio gyda chynrychiolwyr eraill ar draws y Brifysgol a datblygu sgiliau newydd i'ch cefnogi chi yn eich rôl a datblygiad personol.
- » **Prosiectau Partneriaeth** – gweithio gyda grwpiau wedi eu sefydlu rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn seiliedig ar adborth gan gorff y myfyrwyr. Gweithio gyda thîm o staff y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i weithio tuag at ehangu profiad y myfyrwyr. Mae prosiectau yn y gorffennol wedi cynnwys ehangu llythrennedd asesiadau ac adborth myfyrwyr, gwella profiad y myfyrwyr ôl-raddedig, ehangu'r system tiwtora personol.
  - » **Arloesi prosiect ysgol** – mae cynrychiolwyr blynyddoedd blaenorol wedi arwain eu sesiynau adeiladu tîm, digwyddiadau cymdeithasol eu hunain ac wedi gweithio ar brosiectau yn seiliedig ar adborth myfyrwyr yn eu hysgol. Gallwch arloesi syniad gwych sydd gennych ar gyfer cynrychiolwyr hefyd! Galwch heibio i weld Llais y Myfyrwyr a'r Swyddogion Sabothol am unrhyw help, cyngor, neu dywedwch wrthyn ni sut aeth hi!!

# Strwythur Haen Cynrychiolwyr

| Efydd 10 pwynt                                                                          | Arian 20 pwynt                                                                                         | Aur 30 pwynt |
|-----------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------|
| Mynd i Hyfforddiant Cynrychiolydd neu drefnu sgwrs gydag aelod o'r Tîm Llais y Myfyrwyr | 5                                                                                                      | 10           |
| Cynrychioli ÔRY yn eich Ysgol mewn PSM neu gyfarfodydd eraill                           | 5                                                                                                      | 5            |
|                                                                                         | Mynd i gyfarfod Lefel Coleg (cyfarfod gydag eich Deon ÔRY un wrth un ayyb)                             | 5            |
|                                                                                         | Mynd i gyfarfod ar lefel prifysgol (cyfarfod gyda'r Is-ganghellor, cyfarfod gyda Deon eich Coleg ayyb) | 5            |
|                                                                                         | Cwblhau arolwg diwedd blwyddyn y Cynrychiolwyr                                                         | 5            |
|                                                                                         | Cyflwyno enwebiad GCBM                                                                                 | 5            |
|                                                                                         | CCB                                                                                                    | 5            |
|                                                                                         | Mynd i Fforwm CÔRY                                                                                     | 5            |

Gallwch ddatblygu'r sgiliau hyn i gyd drwy fynychu sesiynau a redir gan y Gwasanaeth Datblygu Sgiliau, ar Ail Lawr Undeb y Myfyrwyr, Plas y Parc. Mae gennych fynediad at amrywiaeth o gyrsiau a diplomau wedi eu hardystio yn fewnol ac allanol i dewis ohonynt gan gynnwys; sgiliau cyflwyno, negodi, briffio tîm a mwy.



Skills Development Service  
Gwasanaeth Datblygu Sgiliau

Cardiff University Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



# Fforymau Coleg

Os oes rhai materion sydd wedi codi yn y PSM nad ydynt yn gallu cael eu datrys o fewn yr ysgol, gellir codi rhain yn Fforwm y Coleg. Er enghraifft, materion yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth neu argraffyddion, llyfrgelloedd, ac arlwyo

Mae bob Fforwm Coleg yn cael eu rhedeg ychydig yn wahanol er mwyn ateb gofynion unigryw bob Coleg:

|                                                                         |                                                                         |                                                                               |
|-------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Celfyddydau, Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol</b>                 | <b>Gwyddorau Biofeddygol a Gwyddorau Bywyd</b>                          | <b>Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg</b>                                        |
| <b>Wedi eu rhannu Is-raddedig, Ôl-radd a addysgir a Ôl-radd Ymchwil</b> | <b>Wedi eu rhannu Is-raddedig, Ôl-radd a addysgir a Ôl-radd Ymchwil</b> | <b>Wedi eu rhannu yn Is-raddedig ac Ôl-radd a addysgir ac Ôl-radd Ymchwil</b> |

Mae'r IL Addysg, IL Parc y Mynydd Bychan neu IL y Myfyrwyr Ôl-raddedig yn cadeirio Fforymau'r Colegau. Bydd Cadeiryddion y PSM o fewn y Coleg yn cael eu gwahodd yn ogystal ag uwch aelodau o staff yn y Brifysgol. Os nad yw'r Cadeirydd yn gallu mynychu, dylai'r ysgrifennydd neu gynrychiolydd myfyrwyr arall fynd yn eu lle. Isod ceir rhestr o bob ysgol o fewn bob coleg, ac aelodaeth Fforymau'r Coleg.

## Mae aelodaeth y Fforymau Coleg yn cynnwys:

- » Cadeiryddion y Paneli Staff Myfyrwyr o bob ysgol o fewn y Coleg
- » Is-lywydd Addysg
- » Is-lywydd Parc y Mynydd Bychan (Fforwm Coleg Biowyddorau a Gwyddorau Bywyd yn unig)
- » Is-lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig
- » Dirprwy Is-Ganghellor Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd
- » Deoniaid y Coleg (Israddedig ac Ôl-raddedig)
- » Rheolwr Addysg y Coleg
- » Y Tîm Ymgysylltu â Myfyrwyr
- » Cynrychiolydd Llyfrgelloedd
- » Cynrychiolydd TG
- » Cynrychiolydd Arlwyo
- » Technolegydd Dysgu



# Siarter y Myfyrwyr

Mae ein Siarter Myfyrwyr yn diffinio rolau a chyfrifoldebau myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol. Mae ein Siarter yn esbonio beth gallwch ddisgwyl gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr a beth sydd i'w ddisgwyl gennych chi. Fel Cynrychiolydd Academaidd Myfyrwyr, mae'n bwysig i chi wybod beth yw'r disgwyliadau hyn a beth mae myfyrwyr yn gallu gwneud os nad yw'r Brifysgol yn cyrraedd eich disgwyliadau.

Nid yw Siarter y Myfyrwyr yn oruchelgeisiol; gallwch ddisgwyl yr holl wasanaethau wedi'u amlinellu yn Siarter y Myfyrwyr. Cofiwch, mae disgwyliadau arnoch chi hefyd. Dylech bob amser geisio:

- » Codi materion yn gynnar a gofyn am gyngor os na chaiff rhain eu datrys
- » Hysbysu'r Brifysgol yn brydlon o unrhyw newidiadau i'ch amgylchiadau
- » Rhannu eich pryderon os yw eich profiad yng Nghaerdydd yn cael ei effeithio arno gan ymddygiad cyd-fyfyrwyr a staff
- » Gofynnwch am gyngor yn syth os yw eich cynnydd academaidd, neu unrhyw agwedd arall o'ch profiad yn Nghaerdydd, yn achosi pryder i chi



## Llwyddiannau Myfyrwyr

'Yn dilyn adborth gan y myfyrwyr yn ein hysgol, rydyn ni wedi gofyn am wythnos ddarllen yn ystod tymor yr Hydref ac yn falch o gyhoeddi y bydd hyn yn cael ei weithredu yn y flwyddyn academaidd 2019/20.'

- Cynrychiolwyr Panel Staff Myfyrwyr y Gyfraith



# Cyfeirio

Fel cynrychiolydd academiaidd mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r gwahanol wasanaethau ar draws y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr fel y gallwch gyfeirio myfyrwyr i'r cysylltiadau priodol pe byddent yn dod atoch gyda mater sy'n disgyn y tu allan i gasglu ac adrodd adborth.

Yn eich rôl fel cynrychiolydd academiaidd, does dim disgwyl i chi ddelio â:

- » • Anghydfodau rhwng myfyrwyr a staff academiaidd (aflonyddu, gwahaniaethu)
- » • Gweithdrefnau ffurfiol, e.e. methiannau arholiadau, apeliadau academiaidd, addasrwydd i ymarfer, amgylchiadau esgusodol
- » • Ariannol, cyllid, ymholiadau yn ymwneud ag arian
- » • Problemau lles, iechyd a materion personol e.e. tai, cyflogaeth a mewnfudo.

Os bydd myfyriwr yn rhannu problem gyda chi, a dydych chi'n ddim yn siŵr lle dylid eu cyfeirio nhw, cysylltwch â [studentreps@caerdydd.ac.uk](mailto:studentreps@caerdydd.ac.uk).

Isod mae rhai gwasanaethau allweddol a phobl i fod yn ymwybodol ohonynt:

## Gwasanaethau Undeb y Myfyrwyr

### Cyngor i Fyfyrwyr

Maer Ganolfan Cyngor i Fyfyrwyr yn rhoi cyngor a gwybodaeth annibynnol, eiriolaeth, cynrychiolaeth a chymorth drwy wasanaeth cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i aelodau Undeb y Myfyrwyr. Gallwch alw heibio; ewch i Drydydd Llawr Undeb y Myfyrwyr i siarad â Chynghorydd Myfyrwyr; archebu apwyntiad, e-bostio neu ffonio'r tim. Os bydd myfyriwr yn cysylltu â chi gydag unrhyw un o'r materion hyn, cyfeiriwch nhw at Cyngor i Fyfyrwyr:

- » Materion Academiaidd – apeliadau, cyngor ar ymddygiad myfyrwyr, newidiadau i'ch cwrs/

telerau ac amodau, amgylchiadau esgusodol, adolygu yn ystod Ramadan, Cymorth Adolygu, Ymarfer Annheg

- » Iechyd a Lles – iechyd meddwl, iechyd rhywiol
- » Tai – gwirio contractau tai, anghydfod gyda landlordiaid, rhestrau tai ayb.

### Angen Cyngor?

☎ 02920 781 410

✉ [Advice@Cardiff.ac.uk](mailto:Advice@Cardiff.ac.uk)

» [www.cardiffstudents.com/advice/](http://www.cardiffstudents.com/advice/)

### Gwasanaeth Datblygu Sgiliau

Os oes gennych chi neu gyd-fyfyrwr ddiddordeb mewn gwella neu ddatblygu unrhyw sgiliau yn ystod eich amser yn y brifysgol, lle gwych i'w hanfon nhw yw'r Gwasanaeth Datblygu Sgiliau (GDS) sydd ar ail lawr Undeb y Myfyrwyr. Maent yn darparu amrywiaeth o gyrsiau a sesiynau hyfforddi wedi'u cynllunio i adeiladu hyder, gwella sgiliau trosglwyddadwy a chynyddu cyflogadwyedd ar gyfer dysgwyr wrth iddynt baratoi ar gyfer eu dyfodol wedi iddynt raddio a chael y bonws o gael ardystiad hefyd. Mae mwyafrif y cyrsiau ac yn rhydd ac yn ffordd wych o gyfarfod pobl newydd, rhyngweithio mewn amgylchedd braf ac anffurfiol.

☎ 029 2078 1489

✉ [SDS@Cardiff.ac.uk](mailto:SDS@Cardiff.ac.uk)

» [www.cardiffstudents.com/SDS](http://www.cardiffstudents.com/SDS)

### Siopswyddi

Mae'r Siopswyddi yn wasanaeth cyflogaeth am ddim sy'n ceisio dod o hyd i waith achlysurol ar gyfer myfyrwyr Prifysgol Caerdydd cofrestredig. Mae cyfleoedd ar gael o fewn y Brifysgol, Undeb y Myfyrwyr a gyda chyflogwyr lleol. Maent wedi'u lleoli ar 2il lawr adeilad Undeb y Myfyrwyr.

☎ 02920 781536

✉ [Jobshop@cardiff.ac.uk](mailto:Jobshop@cardiff.ac.uk)

» [www.cardiffstudents.com/jobshop](http://www.cardiffstudents.com/jobshop)

## Gwasanaethau Prifysgol Caerdydd

### Cefnogaeth Myfyrwyr a Lles

Mae gan Ganolfannau Cymorth Myfyrwyr amrywiaeth o wasanaethau wedi eu hymroi i helpu myfyrwyr; gellir cael apwyntiadau ac amseroedd galw heibio bob gwasanaethau drwy gysylltu â Cefnogaeth i Fyfyrwyr. Gallwch gyrchu yr holl wasanaethau gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod neu ddefnyddio manylion cyswllt penodol ar gyfer bob gwasanaeth.

☎ 029 2087 4844

✉ [studentsupport@cardiff.ac.uk](mailto:studentsupport@cardiff.ac.uk)

### Cyngor ac Arian

Arweiniad ar faterion academiaidd, cyngor cyllido, sgiliau arian a chyllidau argyfwng a Bwrsariaethau ac Ysgoloriaethau.

✉ [Adviceandmoney@cardiff.ac.uk](mailto:Adviceandmoney@cardiff.ac.uk)

### Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd

Cyngor gyrfaoedd, canllawiau a gwybodaeth, cyfleoedd profiad gwaith, datblygu sgiliau cyflogadwyedd, mynediad at gyfleoedd a digwyddiadau recriwtio i fyfyrwyr a graddedigion a chymorth ar gyfer dechrau Busnes neu Fenter. Gellir gwneud apwyntiadau dros y ffôn neu drwy archebu ar-lein drwy Gyfrif Gyrfaoedd.

✉ [Careers@cardiff.ac.uk](mailto:Careers@cardiff.ac.uk)

### Cwnsela, Iechyd a Lles

Cyngor a chymorth ymarferol ar gyfer iechyd a lles, ac maent yn cynnig apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gwasanaeth galw heibio, gweithdai, adnoddau hunan-gymorth a gwasanaeth iechyd galwedigaethol.

✉ [wellbeingandcounselling@cardiff.ac.uk](mailto:wellbeingandcounselling@cardiff.ac.uk)

## Gwasanaeth Anabledd a Dyslecsia

Cyngor ac arweiniad i fyfyrwyr anabl, gwasanaethau cymorth arbenigol a hwyluso hygyrchedd ac addasiadau gan gynnwys ystyried.

✉ [Disability@cardiff.ac.uk](mailto:Disability@cardiff.ac.uk)

### Cefnogaeth Myfyrwyr Rhyngwladol

Yn cynnig cymorth ymarferol i fyfyrwyr rhyngwladol a chynnig cyngor a chymorth gydag estyniadau fisâu, canllawiau ar reoliadau cyflogaeth, cyngor ariannol a gwybodaeth am fywyd bob dydd yn y DU.

✉ [ISS@cardiff.ac.uk](mailto:ISS@cardiff.ac.uk)



# Dyddiadau Allweddol

## Tymor yr Hydref

### SGYRSIAU CYFLWYNIADOL:

Dydd Llun 28ain Medi – Dydd Gwener 9fed Hydref. Mae sgysrsiau ôl-raddedig yn parhau hyd nes pythefnos wedi'r dyddiad cychwynnol.

### ETHOLIADAU'R CYNRYCHOLWYR:

Cyfnod enwebu – Dydd Llun 28ain Medi – Dydd Gwener 9fed Hydref

### CYFNOD PLEIDLEISIO:

Dydd Llun 12fed Hydref – Dydd Gwener 16fed Hydref Gall yr ysgol ychwanegu wythnos ychwanegol, os oes angen.

Bydd dyddiadau yn amrywio ar gyfer cyrsiau Ôl-raddedig Ymchwil sy'n dechrau yn hwyrach.

### HYFFORDDIANT CYNRYCHOLWYR:

Dydd Llun 5ed Hydref – Dydd Gwener 13eg Tachwedd. Hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr cyrsiau Ôl-raddedig gyda amseroedd cychwynnol hwyrach yn gallu parhau hyd nes Dydd Gwener 18fed Rhagfur.

### HYFFORDDIANT CADEIRYDDION AC YSGRIFENYDDION:

Dydd Llun 12fed Hydref – Dydd Gwener 13eg Tachwedd Gall dyddiadau ychwanegol gael eu darparu i Gadeiryddion ac Ysgrifenyddion ar gyfer cyrsiau ÔRA sydd yn dechrau yn hwyrach.

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 1:

Dydd Llun 26ain Hydref

### FFORWM ÔRY CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 1:

Dydd Mawrth 27ain Hydref

### CYNHADLEDD CYNRYCHOLWYR:

Dydd Sadwrn 7fed Tachwedd 2020

### ETHOLIADAU YR HYDREF UNDEB Y MYFYRWYR:

Dydd Llun 2il – Dydd Iau 5ed Tachwedd. Bydd rhai seddi Seneddwyrr yn cael eu cadw hyd nes Dydd Llun 23ain nes Dydd Iau 26ain Tachwedd.

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD 1:

Dydd Iau 26ain Tachwedd

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 2:

Dydd Llun 30ain Tachwedd

## DYDDIAD CAU COFNODION PSM:

Dydd Gwener 4ydd Rhagfur 2020

## Tymor y Gwanwyn

### FFORWM ÔRY CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 2:

Dydd Mawrth 21ain Ionawr 2021

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD 2:

Dydd Mawrth 21ain Ionawr 2021

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 3:

Dydd Mercher 27ain Ionawr 2021

### WYTHNOS SIARAD:

Dydd Llun 1af– Dydd Gwener, 5ed Chwefror 2021

### FFORWM CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 3:

Dydd Mawrth 2il Mawrth 2021

### ETHOLIADAU'R GWANWYN UNDEB Y MYFYRWYR:

Dydd Llun 1af– Dydd Gwener 5ed Mawrth 2021

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 4:

Dydd Mercher 10fed Mawrth 2021

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A BYWYD 3:

Dydd Iau 18fed Mawrth 2021

### DYDDIAD CYFLWYNO COFNODION PSM (SEMESTER Y GWANWYN):

Dydd Gwener 26ain Mawrth 2021

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU FFISEGOL A PHEIRIANNEG 5:

Dydd Mawrth 20fed Ebrill 2021

### FFORWM ÔRY CELFYDDYDAU, DYNIAETHAU A GWYDDORAU CYMDEITHASOL 4:

Dydd Mercher 28ain Ebrill 2021

### FFORWM ÔRY GWYDDORAU BIOFEDDYGOL A GWYDDORAU BYWYD 4:

Dydd Iau 27ain Mai 2021



# Egluro termau!

## Byrddau Astudiaeth

Cyfarfodydd ffurfiol gyda Phenaethiaid Ysgol ag aelodau staff priodol i drafod materion gweinyddol ac academiaidd sy'n ymwneud â rhaglenni a ddarperir o fewn yr Ysgol.

## Swyddogion Ymgyrch

Grŵp o 10 myfyriwr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli grwpiau penodol. Mae rhain yn swyddi gwirfoddol, rhan amser a gymerir ochr yn ochr ag astudiaethau'r myfyrwyr. Mae'r swyddi yn cynnwys: Swyddog Myfyrwyr Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig, Swyddog y Gymraeg, Swyddog Iechyd Meddwl, Swyddog Moesegol ac Amgylcheddol, Swyddog Myfyrwyr ag Anableddau, Swyddog LHDT+ (Safle Agored), Swyddog LHDT+ (Safle Traws), Swyddog Merched, Swyddog Myfyrwyr Rhyngwladol a Swyddog Myfyrwyr Hŷn

## Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd (UMPC)

Sefydliad sy'n annibynnol o'r Brifysgol ac sy'n cynrychioli daliadau myfyrwyr Caerdydd. Mae'r Undeb yn cynnig gwasanaethau cynrychiolaeth, gweithgareddau allgyrsiol, nosweithiau allan, tripiâu diwrnod a gwaith rhan amser. Rydych yn aelod awtomatig ac yn gallu defnyddio unrhyw wasanaeth sydd ar gael.

## Fforymau Coleg

Cyfarfodydd a drefnir gan Undeb y Myfyrwyr sydd â Chadeiryddion PSM, cynrychiolwyr y Brifysgol a'r Undeb yn bresennol er mwyn siarad am bryderon ar draws y coleg na all gael eu datrys ar lefel ysgol neu angen cael eu hysbysu i'r coleg.

## Prosiectau Partneriaeth

Y Brifysgol mae rhain yn brosiectau yn seiliedig ar

adborth yn yr Argymhelliad Ysgrifenedig Myfyrwyr. Maent yn cael eu cynnal am flwyddyn mewn partneriaeth â'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Prosiectau blwyddyn academiaidd 2019–20 oedd: arlwy, teithio a thrafnidiaeth a chymorth bugeiliol ÔRY.

## Adolygiad Cyfnodol

Dadansoddiad eang o ysgolion academiaidd sydd yn digwydd bob pum mlynedd i sicrhau bod yr ysgol yn bodloni'r disgwyliadau a nodir yng nghod ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd

## Cynrychiolydd Ôl-raddedig Ymchwil (CÔR)

Gwirfoddolwr Ôl-raddedig Ymchwil sy'n cynrychioli daliadau, cwestiynau a sylwadau eu cyd-fyfyrwyr

## Fforymau Cynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil (CORY) –

Cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan Is Lywydd Myfyrwyr Ôl-raddedig, yn agored i holl Gynrychiolwyr Ôl-raddedig Ymchwil ar draws y Brifysgol, lle gellir trafod materion ar lefel Ysgol, Coleg neu Brifysgol

## Swyddogion Sabothol

Grŵp o saith myfyrwyr sy'n cael eu hethol bob blwyddyn i gynrychioli daliadau myfyrwyr Caerdydd. Mae'r swyddi hyn yn derbyn tâl ac wedi'u rhannu mewn i saith maes gwahanol: Llywydd Undeb y Myfyrwyr ac Is-lywydd ar gyfer Addysg, Lles, Myfyrwyr Ôl-raddedig, Campws y Mynydd Bychan, Cymdeithasau a Chwaraeon.

## Cynrychiolydd Academiaidd Myfyrwyr (CAM)

Myfyriwr sy'n gwirfoddoli sy'n cynrychioli daliadau, cwestiynau a sylwadau eu cyd-fyfyrwyr

## Cyngor i Fyfyrwyr

Gwasanaeth cyngor annibynnol sydd wedi'i leoli yn Undeb y Myfyrwyr, ar gael i holl fyfyrwyr Caerdydd. Mae'r tîm yn darparu arweiniad ar faterion academiaidd, cwynion defnyddwyr, tai a mwy

## Cydlynnydd Cynrychiolydd Myfyrwyr

Aelod o staff o'ch ysgol sy'n hwyluso recriwtio a sefydlu cynrychiolwyr myfyrwyr, darparu cefnogaeth weinyddol ar gyfer cyfarfodydd ac yn gweithio'n agos gydag Undeb y Myfyrwyr er mwyn sicrhau cynrychiolaeth a chyfleoedd ar gyfer myfyrwyr.

## Cefnogaeth i Fyfyrwyr

Gwasanaeth a redir gan y Brifysgol sydd wedi'i leoli yn 50 Plas y Parc ac yn Undeb y Myfyrwyr ac sy'n cynnig cronfeydd caledi, cyngor cyffredinol, cefnogaeth rhyngwladol a gwasanaethau cwnsela.

## Panel Staff Myfyriwr (PSM)

Cyfarfodydd gyda Chynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr a staff yr Ysgol i drafod materion sy'n effeithio corff y myfyrwyr ar lefel lleol. Mae disgwyl i chi fynychu'r cyfarfodydd hyn yn eich rôl

## Tîm Llais y Myfyriwr

Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant, cefnogaeth ac yn darparu cyngor penodol ar eich rôl. Gallwch gysylltu â'r tîm os oes gennych unrhyw awgrymiadau neu gwynion gyda strwythur y Cynrychiolwyr Academiaidd Myfyrwyr.





**RYDYN NI EISIAU  
CLYWED EICH  
SYNIADAU  
ANHYGOEL AR BETH  
DDYLAI UNDEB Y  
MYFYRWYR FOD  
YN EI WNEUD!**

**SENEDD MYFYRWYR**

Cardiff University Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

**CYFLWYNWCH EICH SYNIADAU AR  
CARDIFFSTUDENTS.COM/IDEAS**

## **Cysylltwch â'ch Swyddogion Sabothol!**



**Jane**

**IL Myfyrwyr Ôl-raddedig**

✉ [VPPostgraduate@Cardiff.ac.uk](mailto:VPPostgraduate@Cardiff.ac.uk)  
f [PGradOfficerCSU](#)  
🐦 [@PostgradCSU](#)



**Hannah**

**IL Addysg**

✉ [VPEducation@Cardiff.ac.uk](mailto:VPEducation@Cardiff.ac.uk)  
f [EducationCSU](#)  
🐦 [@EducationCSU](#)



**Sebastian**

**IL Parc y Mynydd Bychan**

✉ [VPHeathPark@Cardiff.ac.uk](mailto:VPHeathPark@Cardiff.ac.uk)  
f [VPHeathParkCSU](#)  
🐦 [@HeathParkCSU](#)